PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**ARHOLIADAU'R YSGOLORIAETH MYNEDIAD**
**IONAWR 2019**

# DAEARYDDIAETH FFISEGOL

**Amser - 1.5 awr**

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr: Atebwch 2 gwestiwn.**

---

1. Trafodwch effeithiau cadarnhaol gweithgarwch pobl ar brosesau a thirffurfiau arfordirol.

2. Dewiswch bump o dirffurfiau (erydol a/neu ddyddodiad) sydd i'w cael mewn amgylcheddau rhewlifol, disgrifiwch eu nodweddion, ac esboniwch y prosesau a arweiniodd at eu creu.

3. Esboniwch pam y mae planhigion ac anifeiliaid nad ydynt yn gynhenid i Brydain yn cael eu hystyried yn fygythiad i fioamrywiaeth gynhenid.

4. Dewiswch un math o berygl naturiol (e.e. folcanig, seismig, meteorolegol), a rhowch ddarlun cyffredinol o'r prif nodweddion, a thrafod yr effeithiau ar bobl a’r amgylchedd adeiledig.

5. Beth sy'n dylanwadu ar y newid tymhorol yn arllwysiad afon?

6. Disgrifiwch brif storfeydd carbon y byd gan gloriannu sut y mae gweithgaredd pobl wedi newid y storfeydd hynny.

7. Beth yw ystyr diffeithdiro a pham y mae'n rhywbeth y dylem boeni amdano?

8. Disgrifiwch y mecanweithiau y tu ôl i gynnydd ewstatig lefel y môr, a thrafodwch y prif fygythiadau i'r amgylchedd ffisegol.

---